OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 116

# Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

## RHAN 2

CYFLWYNO BWYDYDD ANIFEILIAID A'U CYFANSODDDIAD

**Rheoli deunyddiau bwyd anifeiliaid**

**13.**—(1) Yn y rheoliad hwn, mae unrhyw gyfeiriad at Ran gyda Rhif yn golygu Rhan o Atodlen 2.

(2) Ni chaiff unrhyw berson roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (3) o Ran II, o dan enw heblaw'r enw a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn (2) o'r Rhan honno.

(3) Ni chaiff unrhyw berson roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid nas rhestrir yn Rhan II o dan enw a bennir yng ngholofn (2) o'r Rhan honno neu dan enw neu derm a allai mewn unrhyw ffordd arall gamarwain prynwr ynglŷn â beth yw'r deunydd mewn gwirionedd.

(4) Pan fydd enw deunydd bwyd anifeiliaid a restrir yng ngholofn (2) o Ran II yn cynnwys enw neu derm cyffredin a restrir yng ngholofn (4) o Ran I, ni chaiff unrhyw berson roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid o'r fath nac unrhyw fwyd anifeiliaid cyfansawdd yn cynnwys deunydd bwyd anifeiliaid o'r fath oni bai fod y deunydd bwyd anifeiliaid wedi cael ei baratoi drwy'r broses a bennir yng ngholofnau (2) a (3) o Ran I sy'n cyfateb i'r enw neu derm cyffredin hwnnw.

(5) Ni chaiff unrhyw berson roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid nac unrhyw fwyd anifeiliaid cyfansawdd sy'n cynnwys unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid, oni bai—

(a) yn achos unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (3) o Ran II, nad yw purdeb botanegol y deunydd bwyd anifeiliaid yn ôl ei bwysau yn llai na'r ganran (os oes un) a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (3) o Ran II neu, os nad oes canran wedi ei phennu, nad yw'n llai na 95%; neu

(b) yn achos unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn (1) o Ran III nad yw purdeb botanegol y deunydd bwyd anifeiliaid yn ôl ei bwysau yn llai na 95%; a

bod y deunydd bwyd anifeiliaid hefyd yn cydymffurfio â'r darpariaethau ynghylch purdeb botanegol a chemegol a nodir ym mharagraff 1 o Adran II o Ran A o'r Atodiad i'r Gyfarwyddeb Bwyd Anifeiliaid.

(6) Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid i lynu deunydd bwyd anifeiliaid arall, os yw swm y deunydd bwyd anifeiliaid a ddefnyddir felly yn fwy na 3% o gyfanswm pwysau'r deunydd bwyd anifeiliaid a lynir.

(7) Heb ragfarnu adrannau 73 a 73A, ni chaiff unrhyw berson fewnforio i Gymru o wladwriaeth nad yw'n Wladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, gyflenwi (heblaw drwy werthu), meddiannu gyda golwg ar ei gyflenwi, na defnyddio unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid sy'n andwyol neu'n beryglus i anifeiliaid fferm, i anifeiliaid anwes neu, drwy yfed neu fwyta cynhyrchion unrhyw anifail a fwydwyd ar y deunydd bwyd anifeiliaid, i fodau dynol.

(8) Ni chaiff unrhyw berson roi mewn cylchrediad na defnyddio unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid sy'n andwyol i'r amgylchedd.

(9) Ni chaiff unrhyw berson roi mewn cylchrediad na defnyddio unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid mewn ffordd sy'n debygol o gamarwain ynghylch ei briodweddau.

(10) Ym mharagraff 5(a) cymerir nad yw “disgrifiad” (“*description*”) yn cynnwys unrhyw ofyniad ynghylch purdeb botanegol, ac at ddibenion y rheoliad hwn ac Atodlen 2 rhaid diffinio “purdeb botanegol” (“*botanical purity*”) yn unol â pharagraff 2 o Adran II o Ran A o'r Atodiad i'r Gyfarwyddeb Deunyddiau Bwydydd Anifeiliaid.